**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Deintyddiaeth**

**This response was submitted to the Health and Social Care Committee consultation on Dentistry**

**D 08**

**Ymateb gan: | Response from: Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned | Board of Community Health Councils**

---

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru

# Ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru

Tystiolaeth gan Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned a'r 7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
BWRDD CYMRU | WALES BOARD

www.bwrddcic.cymru

# Cynnwys


Ynglŷn â'r Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned 2

Clywed gan bobl am eu gofal GIG 3

Cael gweld deintydd o'r GIG 5

Mwy o dystiolaeth 13

# Ynglŷn â'r Bwrdd a Chynghorau Iechyd Cymuned

Mae Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) yn falch o ddarparu'r cyflwyniad hwn i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i Ddeintyddiaeth ar ran y 7 Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) yng Nghymru.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn gyrff annibynnol sy'n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae CICau yn annog a chefnogi pobl i gael llais wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG.

Mae 7 CIC yng Nghymru. Mae pob un yn cynnwys aelodau gwirfoddol lleol sy'n byw yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, gyda chefnogaeth tîm bach o staff cyflogedig. Mae pob CIC yn:

- Cynnal ymweliadau rheolaidd â'r gwasanaethau iechyd er mwyn clywed gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (a'r bobl sy'n darparu gofal) er mwyn dylanwadu ar y newidiadau all wneud gwahaniaeth mawr
- Estyn allan yn ehangach at bobl o fewn cymunedau lleol i ddarparu gwybodaeth, ac i gasglu safbwyntiau a phrofiadau o wasanaethau'r GIG. Mae Cynghorau'n defnyddio'r hyn maen nhw'n ei glywed i weld sut mae gwasanaethau'n perfformio'n gyffredinol a sicrhau bod y GIG yn cymryd camau i wneud pethau'n well lle mae angen hyn
- Cymryd rhan gyda rheolwyr y gwasanaeth iechyd pan maen nhw'n meddwl am wneud newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu fel bod pobl a chymunedau yn cael dweud eu dweud o'r dechrau
- Mae'n darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sydd am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i godi eu pryderon am ofal a thriniaeth y GIG.

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned (y Bwrdd) yn bodoli i gefnogi, cynorthwyo, cynghori a rheoli perfformiad Cynghorau Iechyd Cymuned. Mae'n cynrychioli safbwyntiau cyfunol y Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru.

# Clywed gan bobl am eu gofal GIG

Ers i ni ddechrau byw gyda chyfyngiadau ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws, mae ein haelodau a'n staff gwirfoddol wedi gweithio'n galed i barhau i glywed barn pobl am eu GIG yn ystod y cyfnod heriol hwn - gan weithio mewn ffyrdd newydd i geisio cadw pawb yn ddiogel.

Wrth i'r cyfyngiadau newid mewn ymateb i lefelau'r risg yn ein cymunedau, mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi gallu ailgyflwyno gweithgareddau wyneb yn wyneb yn eu cymunedau lleol. Mae ymweliadau i glywed gan bobl tra'u bod yn derbyn gwasanaethau'r GIG yn parhau i fod yn fwy cyfyngedig.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn parhau i wneud beth bynnag allan nhw i alluogi pobl i rannu eu barn a'u profiadau mewn llawer o wahanol ffyrdd. Mae hyn wedi cynnwys ar-lein a thestun yn ogystal â ffyrdd mwy traddodiadol gan gynnwys wyneb yn wyneb, ffôn a phostio. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd wedi datblygu ffyrdd newydd o glywed gan bobl gan gynnwys grwpiau ffocws ar-lein a sgyrsiau Facetime gyda phobl yn derbyn gofal yn ein hysbytai.

Mae pobl ledled Cymru wedi gallu rhannu eu barn a'u profiadau o'r GIG gyda ni drwy gwblhau ein harolygon cenedlaethol a lleol. Dim ond un ffordd y mae CICau yn clywed gan bobl am eu gwasanaethau GIG ydy'r adborth uniongyrchol a gawn.

Mae Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd yn gwybod am farn a phrofiadau pobl mewn ffyrdd eraill:

- trwy ymholiadau'n dod i mewn i swyddfeydd CIC

- straeon defnyddwyr cleifion/gwasanaeth yn cael eu rhannu â'r gwasanaeth eiriolaeth cwynion
- cysylltiadau â rhwydweithiau cymunedol lleol
- gwybodaeth yn dod i mewn inni gan gynrychiolwyr a grwpiau cymunedol
- trafodaethau ar y cyfryngau cymdeithasol
- monitro gweithgareddau a pherfformiad y bwrdd iechyd.

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o'r bobl sy'n rhannu eu barn gyda ni trwy ein harolygon ar-lein yn gwneud hynny am fod ganddyn nhw deimladau cryf am eu profiad GIG.  Rydyn ni'n aml yn clywed profiadau da iawn neu wael iawn.  Rydyn ni'n gwybod nad yw'r hyn rydyn ni'n ei glywed yn adlewyrchu profiad pawb.

Mae pobl yn gwerthfawrogi bod staff yn gweithio'n galed i gadw pobl yn ddiogel a darparu'r gofal, y driniaeth a'r gefnogaeth orau posib wrth i bob rhan o'r GIG barhau i'w chael hi'n anodd ymdopi â phrinder staff a'r galw cynyddol.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r bobl sy'n rhannu eu barn a'u profiadau gyda ni.  Rydym hefyd am ddiolch i bawb sy'n gweithio mor galed bob dydd fel y gall gwasanaethau iechyd a gofal adfer a thrawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau'r GIG i bob un ohonom yn y dyfodol.

Mae ein tystiolaeth yn canolbwyntio ar yr hyn mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi ei glywed am yr heriau y mae pobl yng Nghymru yn eu wynebu i gadw eu dannedd a deintgig yn iach. Mae'r heriau wedi'u gwneud yn waeth gan COVID-19 ond ni chawsant eu hachosi ganddo.  I lawer gormod o bobl, roedd y problemau ym maes deintyddiaeth yn gyffredin am gyfnod hir cyn i'r pandemig daro.

Ochr yn ochr â chael gweld meddyg teulu – cyn ac yn ystod y pandemig, mae CICau ledled Cymru wedi clywed yn bennaf oll am eu trafferthion o weld deintydd neu orthodontydd y GIG.

# Cael gweld deintydd o'r GIG

## Cael gofal deintyddol arferol

### Darganfod sut

Dylai fod yn hawdd i bobl drefnu apwyntiad i weld deintydd y GIG mor rheolaidd ag sydd ei angen arnynt. Os nad yw pobl yn gwybod sut i ddod o hyd i ddeintydd, neu faint fydd yn costio i weld un, er enghraifft os ydyn nhw'n newydd i ardal, dylai fod yn hawdd darganfod hynny. Nid yw hyn wastad yn wir yng Nghymru. I lawer gormod o bobl, mae'n anodd gwybod lle i ddechrau.

Mae'r wybodaeth ar wefannau'r GIG yn rhy aml yn gyfyngedig, wedi dyddio neu'n anghyson.

Mae dryswch ynghylch a all pobl 'gofrestru' gyda deintydd penodol ar gyfer gofal arferol a pharhaus y GIG (er bod y newidiadau i'r contract deintyddol yn 2006 wedi dileu'r angen i gofrestru gydag ymarfer); a yw byrddau iechyd yn casglu a darparu gwybodaeth ynglŷn â pha ddeintyddion yn yr ardal sydd â lle i dderbyn cleifion newydd; neu a oes gan unrhyw ddeintyddion apwyntiadau GIG ar gael i weld rhywun am archwiliad neu ofal arall nad yw'n ofal brys.

Mewn rhai achosion mae pobl yn cael cyfarwyddyd i ffonio o amgylch deintyddion y GIG gan obeithio y bydd un ohonyn nhw'n barod i'w gweld.

I rai pobl nad ydynt yn gwybod beth sydd ar gael 'ar y GIG', faint y bydd yn ei gostio iddyn nhw i gael triniaeth y GIG, neu pa gymorth ariannol y gallant ei gael yn golygu eu bod yn cael eu digalonni rhag chwilio am driniaeth, gan arwain at broblemau mwy yn ddiweddarach.

Nid yw'n ddigon i arddangos yr hyn sydd ar gael, beth ydy'r costau a pha gymorth ariannol y gallai pobl gael ei gynnig pan fydd pobl yn cyrraedd deintyddfa'r GIG - neu i ddibynnu ar y wybodaeth a gyhoeddir ar wefan GIG Cymru neu ar wefan GIG arall, hyd yn oed

os yw'r wybodaeth honno'n ddefnyddiol pan mae rhywun yn gallu dod o hyd iddo.

### Cyrraedd apwyntiad

Rydyn ni wedi clywed bod y pellteroedd mae rhai pobl yn gorfod ei deithio, yn enwedig mewn sawl ardal wledig, i weld deintydd yn gwneud pethau hyd yn oed yn anoddach a chostus.

Mae gallu cael mynediad hawdd i ddeintyddfa wedi bod yn anodd i rai pobl anabl, sydd wedi gweld bod mynd i mewn a symud o amgylch rhai deintyddfeydd yn gallu bod yn heriol.

Gall amseroedd apwyntiadau ar gyfer gofal deintyddol a thriniaeth arferol hefyd gyfyngu ar allu pobl i gael y gofal a'r driniaeth sydd ei angen arnynt, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau gwaith a gofalu. Mae eu hymrwymiadau yn aml yn golygu nad ydyn nhw'n gallu cymryd apwyntiadau yn yr oriau gweithredu arferol '9-5'.

## Triniaeth ddeintyddol frys

Rydym wedi gweld bod cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd angen triniaeth ddeintyddol frys. I lawer o bobl, mae mynd i weld deintydd am driniaeth frys wedi bod yn anodd ac i rai yn amhosib. Mae hyn yn aml wedi cael ei wneud yn waeth pan fo pobl wedi cael gwybod nad ydyn nhw'n achosion brys - er eu bod wedi bod mewn poen eithafol neu mae eu problem deintyddol yn cael effaith fawr ar bethau fel eu gallu i fwyta.

I rai pobl, doedd y cysylltiadau rhwng y gwasanaeth 111/y tu allan i oriau a llinellau cymorth deintyddol lleol ar gyfer delio â phoen deintyddol neu haint brys ddim yn gweithio'n dda.

Roedd cael apwyntiad brys drwy'r llinell gymorth ddeintyddol leol yn sgrambl 9am. Clywsom fod pobl yn wynebu gorfod ffonio'n ôl eto'r diwrnod canlynol unwaith yr oedd yr apwyntiadau wedi mynd yn gyflym, gyda'r gwasanaeth 111 yn methu cefnogi pobl gyda lliniaru poen.

# Aros am ofal deintyddol

## Cleifion 'cofrestredig' blaenorol

I bobl a oedd wedi'u cofrestru gyda deintydd cyn y pandemig, nid yw bob amser wedi bod yn hawdd cael apwyntiad arferol eto gyda'r un deintydd i gael archwiliad.

Mae hyn oherwydd bod rhai pobl wedi cael gwybod eu bod wedi cael eu dadgofrestru oherwydd nad ydyn nhw wedi cael archwiliad ers peth amser - er nad yw wedi bod yn bosibl nac yn hawdd gwneud hynny oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 neu nad oedden nhw'n gwybod bod eu practis deintyddol yn cynnig apwyntiadau eto.

## Amharu ar driniaeth

Roedd llawer o bobl yn mynd trwy gwrs o driniaeth a stopiodd pan darodd y pandemig.

Er bod y rhesymau dros hyn yn glir ac yn cael eu deall yn dda, mae effaith arferion diogel COVID-19 ym maes deintyddiaeth ochr yn ochr â chapasiti'r GIG sydd eisoes yn gyfyngedig wedi golygu bod adfer gofal deintyddol wedi bod, ac yn parhau'n boenus o araf i lawer o bobl.

Mewn sawl achos mae hyn wedi golygu bod y cynnydd a wnaethpwyd wedi'i golli, ac mae cyflwr cegau pobl wedi gwaethygu - gan arwain at golli dannedd a gwneud triniaeth barhaus yn fwy heriol ac yn fwy costus.

## Aros yn hir i gael eu gweld

Mae'r amser mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn aros yn cael ei ddisgrifio inni gan amlaf mewn blynyddoedd yn hytrach nag wythnosau neu fisoedd - os gallant hyd yn oed fynd ar restr aros.

Mae effaith aros yn rhy hir yn wahanol i bawb.  Y pethau rydyn ni'n eu clywed amlaf ydy:

- **Poen ac anesmwythyd**

  Rydym wedi clywed gan lawer o bobl am fyw gyda phoen ac anesmwythyd yn aros am driniaeth ddeintyddol a beth mae hyn wedi ei olygu i'w hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae'r hyn rydyn ni wedi'i glywed wedi bod yn dorcalonnus.

  I rai pobl mae'r effaith wedi cyfyngu ar yr hyn maen nhw'n ei fwyta, a sut maen nhw'n ei fwyta.

  I eraill mae'r effaith wedi cyfyngu ar eu gallu i gario ymlaen gyda'u bywydau o ddydd i ddydd gan nad ydyn nhw'n gallu canolbwyntio, cysgu'n dda na gweithio'n effeithiol.

  I lawer o bobl mae problemau gyda'u dannedd a deintgig yn effeithio ar eu hunanhyder a sut maen nhw'n teimlo amdanyn nhw eu hunain.

  Mewn rhai achosion, rydyn ni wedi clywed bod effaith byw gyda'r boen a'r anghysur mor anodd roedd hynny wedi arwain at bobl yn meddwl am ddod â'u bywydau i ben.

- **Dibynnu ar boen laddwyr a meddyginiaethau eraill**

  I lawer o bobl, yr unig ffordd maen nhw wedi gallu ymdopi â'r boen a'r anghysur wrth aros am driniaeth ydy defnyddio poen laddwyr. Pan fyddan nhw'n aros am gyfnod hir, maen nhw'n poeni mwy am fod yn ddibynnol neu'n gaeth i boen laddwyr, a'r niwed y gall hyn ei wneud i'w hiechyd a'u llesiant yn ehangach.

  Mewn rhai achosion rydym wedi clywed bod pobl yn dibynnu ar wrthfiotigau, a oedd ond yn delio gyda'r symptomau ac nid yr achos sylfaenol. Pan roedd hyn yn digwydd, roedd pobl yn poeni am wrthfiotigau yn dod yn llai effeithiol oherwydd gorddefnydd, a beth allai hyn ei olygu iddyn nhw yn y tymor hwy.

- **Hunan-driniaeth**

  Pan nad yw deintyddfeydd wedi gallu darparu apwyntiadau, mae rhai pobl wedi dweud wrthym eu bod wedi cael cyngor i ddefnyddio pecynnau llenwadau dros dro a thrin eu hunain.

  Roedd hyn yn aml yn gostus a doedd o ddim yn helpu. Mae hyn oherwydd i rai pobl roedd y pecynnau yn anodd i’w defnyddio, neu os oedden nhw'n llwyddo i'w defnyddio doedd yr ateb dros dro ddim yn para'n ddigon hir. Mae prynu mwy o becynnau yn costio hyd yn oed mwy o arian.

  Ac i rai pobl, mae'r anobaith maen nhw wedi’i deimlo wedi gwneud iddyn nhw dynnu eu dannedd eu hunain allan.

## Gofal iechyd cydgysylltiedig?

Rydym wedi clywed gan rai pobl y mae eu hanghenion gofal deintyddol yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â chyflwr gofal iechyd ehangach fel diabetes, osteoporosis a chanser. Maen nhw'n poeni am effaith eu cyflwr ar eu dannedd a deintgig, ac yn ei dro effaith aros yn rhy hir am driniaeth ddeintyddol ar eu cyflwr ehangach.

Mae menywod beichiog a'r rhai a gafodd fabi yn ddiweddar wedi dweud wrthym nad ydynt wedi gallu cael gofal deintyddol am ddim yn ystod mamolaeth. I rai roedd eu beichiogrwydd yn achosi problemau gyda'u dannedd a'u deintgig, er enghraifft oherwydd salwch. I eraill mae'n bosib y bydd eu gallu i fforddio talu am driniaeth yn cael ei effeithio hefyd oherwydd eu habsenoldeb o'r gwaith.

I lawer o bobl ifanc, mae eu hanallu i gael triniaeth orthodonteg yn cael effaith sylweddol a sylfaenol ar eu hunanhyder a'u hiechyd meddwl a'u llesiant. Mae hyn mewn cyfnod pan mae'r pandemig eisoes wedi cael effaith mor ddinistriol arnyn nhw mewn cymaint o ffyrdd eraill.

I bobl ifanc, mae'n teimlo'n amlwg y dylai penderfyniadau clinigol ar fynediad at driniaeth ystyried eu hanghenion iechyd meddwl a llesiant ehangach.

## System ddeintyddol ddwy haen

### Pwysau i fynd yn breifat

Ers llacio'r cyfyngiadau ac ail-agor deintyddfeydd, mae CICau wedi clywed mwy a mwy am y pwysau maen nhw'n ei deimlo i 'fynd yn breifat'.

Nid oedd rhai deintyddfeydd a oedd yn flaenorol yn cynnig triniaeth ddeintyddol y GIG yn gwneud hynny mwyach, ac ni allai pobl ddod o hyd i ddeintyddfa arall yn hawdd.

Roedd rhai deintyddfeydd yn dal i gynnig triniaeth ddeintyddol y GIG, ond roedd bron yn amhosib cael un o'r apwyntiadau oedd ar gael.

Cafodd rhai pobl wybod mai dim ond os oedden nhw eu hunain yn cael eu cofrestru fel claf preifat y gallen nhw gael apwyntiad ar gyfer eu plentyn.

Mewn llawer o achosion, mae pobl wedi dweud wrthym y gallen nhw gael apwyntiad yn hawdd yn gyflym gyda'r un ddeintyddfa - cyn belled â'u bod wedi gwneud hynny'n breifat.

Mae hyn yn arwain at lawer o rwystredigaeth a phryder, gyda phobl yn teimlo bod cleifion preifat yn cael blaenoriaeth dros eu triniaeth eu hunain, er y gallai eu hangen fod yn llawer mwy.

### Plant a phobl ifanc

Mae'r raddfa eang ac effeithiau dinistriol o bosibl y pandemig ar blant a phobl ifanc yn amlwg.  Mae cael y cymorth a'r cyngor iawn ar oedran digon cynnar yn helpu i gadw dannedd a deintgig yn iach drwy gydol eu bywydau.

Mae llawer o rieni wedi dweud wrthym pa mor bryderus y maen nhw nad ydy eu plant wedi gallu gweld deintydd o gwbl ers y pandemig.

I rai plant a phobl ifanc gall y pandemig a'r  argyfwng costau byw ar fwyta'n iach, heb fynediad at ofal deintyddol da a thriniaeth, gael effaith gydol oes ar eu dannedd a deintgig.

I lawer o bobl a theuluoedd, mae teithio'n bell i gael gweld deintydd o'r GIG sy'n cynnig apwyntiadau i blant yn rhywbeth na allant ei fforddio, hyd yn oed os oes trafnidiaeth cyhoeddus neu ffyrdd eraill o deithio ar gael.

## Pan fo deintyddiaeth yn gweithio'n dda

Pan rydyn ni'n clywed gan bobl sydd wedi gallu gweld deintydd i gael gwiriadau a thriniaeth, mae'r adborth rydyn ni'n ei gael bron bob amser yn dda, er nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau'r profiad ei hun.  Yn aml mae hyn yn dod gan bobl sydd wedi bod gyda'r un ddeintyddfa ers amser maith.

Rydym yn clywed bod deintyddion yn darparu gofal a thriniaeth mewn ffordd ofalgar a sensitif, gan gymryd amser i wneud i bobl deimlo’n gartrefol a darparu cyngor da sy'n canolbwyntio ar gadw dannedd a deintgig yn iach.

## Diwygio deintyddiaeth yng Nghymru

Ym mis Ebrill 2022, gwelodd Cynghorau Iechyd Cymuned y contract Diwygio Gwasanaethau Deintyddol newydd yn cael ei gyflwyno. Roedd deintyddfeydd yn gallu dewis a ddylid ymgymryd â'r contract newydd neu aros ar y contract 'Unedau Gweithgaredd Deintyddol (UDA).  Mae CICau yn credu bod y trefniadau newydd yn seiliedig ar symud y balans i gynyddu mynediad, canolbwyntio ar atal a hunan-ofal, a blaenoriaethu triniaeth ar sail risg yn gywir.  Mae canolbwyntio ar ddeintyddiaeth o fewn agenda iechyd cyhoeddus ehangach yn allweddol.

Mae pryderon cychwynnol CICau na fyddai deintyddfeydd yn symud drosodd i'r contract newydd, neu y gallai cyflwyno'r contract olygu y byddai deintyddfeydd yn rhoi'r gorau i ddarparu gofal deintyddol GIG o gwbl ddim wedi digwydd yn eang.

Mae'n ymddangos hyd yma, er bod ychydig o ddeintyddfeydd wedi dod â'u contractau GIG i ben, bod deintyddfeydd eraill yn yr ardal yn codi'r contractau hynny.

Fodd bynnag, mae angen clir am well cyfathrebu cyhoeddus ynglŷn â'r hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu inni a'n gofal deintyddol a'n triniaeth. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi gweld rhai enghreifftiau o gamwybodaeth clir yn cael ei ddarparu i bobl pan fydd deintyddfeydd yn rhoi'r gorau i ddarparu gofal GIG.

Os yw diwygio deintyddol yn mynd i wneud y math o newid systemig sydd ei angen i atal ehangu system ddwy haen a gwyrdroi prinder gofal a thriniaeth ddeintyddol GIG, yna mae'n rhaid i'w raglen ddiwygio sbarduno newid yn gyflym.

Rhaid iddo fynd i'r afael â'r problemau sy'n effeithio ar bobl ledled Cymru:

- **Gwell gwybodaeth am ddeintyddiaeth y GIG**

  Mae angen i bobl allu gweld yn hawdd ble a sut y gallant gael mynediad at wasanaethau, y taliadau y gall fod eu hangen arnynt i dalu, a'r help sydd ar gael iddynt. Ni ddylid eu gadael ar eu pennau eu hunain i chwilio am ddeintydd o'r GIG, ac mae angen i'r dryswch ynghylch cofrestru ddod i ben.

  Mae angen i wasanaethau'r GIG gael darlun clir a chyfredol o raddfa'r angen am ddeintyddiaeth y GIG fel y gall gynllunio'n iawn i ddiwallu'r angen hwnnw. Mewn rhai ardaloedd, does gan y byrddau iechyd ddim darlun clir o nifer y bobl yn eu poblogaeth sy'n aros am apwyntiad GIG.

- **Delio gyda mynediad a fforddiadwyedd**

  Yn syml, ni ddylai UNRHYW UN gael eu heithrio o'r gwasanaethau deintyddol sydd eu hangen arnynt oherwydd nad ydyn nhw'n gallu mynd i mewn i weld deintydd yn lleol neu am nad ydyn nhw'n gallu fforddio talu.

Mae'n RHAID i'r agenda ddiwygio a'r buddsoddiad ym maes deintyddiaeth yng Nghymru gyflawni hyn a mynd i'r afael yn gyflym â'r problemau hirdymor unwaith ac am byth – fel bod pawb yng Nghymru, lle bynnag maen nhw'n byw a beth bynnag ydy eu hamgylchiadau, yn gallu cael y cyngor, y gofal a'r driniaeth ddeintyddol sydd eu hangen arnyn nhw.

# Mwy o dystiolaeth

Yn ogystal â'r dystiolaeth yma, mae'r Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi cyhoeddi ystod o adroddiadau sy'n rhoi mwy o fanylion am yr hyn rydyn ni wedi ei glywed am gael gweld deintydd yng Nghymru:

- **Mynediad i wasanaethau deintyddol** CIC Aneurin Bevan, Gorffennaf 2022

  https://aneurinbevanchc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/report-library/dental-mystery-shopper-july-2022/

- **Mynediad at ddeintyddion yn ystod pandemig COVID-19** Powys CIC, Gorffennaf 2021

  https://powyschc.nhs.wales/files/report-library/access-to-dentists-during-the-covid-19-pandemic-report/

- **Mynediad at Ofal Deintyddol y GIG ym** Mhowys CIC, Gorffennaf 2022

https://powyschc.nhs.wales/files/report-library/access-to-dentists-july-2022/

- **Cael mynediad at ofal deintyddol y GIG: Mynd i wraidd y broblem** CIC Bae Abertawe, Chwefror 2022

  https://swanseabaychc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/sb-chc-thematic-reports-2021/dental-report-feb-2022/

- **Oes gennych chi ddeintydd?** CIC Hywel Dda, Ebrill 2021

  https://hywelddachc.nhs.wales/files/reports/have-you-got-a-dentist/

- **A yw'r GIG yn gwella byw gyda COVID? Yr hyn glywson ni gan bobl yng Nghymru rhwng Ebrill a Medi 2021** Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned

  https://boardchc.nhs.wales/files/what-people-have-told-us-report-april-sept-2021/

- **Gwasanaethau deintyddol y GIG ledled Bwrdd Iechyd Bae Abertawe: adroddiad ar brofiad cleifion** CIC Bae Abertawe, Mawrth 2020

  https://swanseabaychc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/sb-chc-thematic-reports-2020/dental-experience-report-march-2020-pdf/

- **Adroddiad argaeledd gwasanaethau deintyddol GIG** CIC De Morgannwg, Tachwedd 2020

  https://southglamorganchc.nhs.wales/files/reports/reports-2020-21/dental-secret-shopper-exercise-report-english-pdf/

- **Gwasanaethau Orthodontig yng Nghymru: Clywed am brofiadau Pobl Ifanc** Bwrdd y Meddygon Teulu, Rhagfyr 2020

  https://boardchc.nhs.wales/files/what-weve-heard-from-you/orthodontic-services-in-wales-chc-national-report/

**www.bwrddcic.cymru**